Cyngor Cymuned Ganllwyd

Ebrill 12fed 2023

**Presennol**

Cyng. C.Dixon, D.Morris, C.Edwards, Gavin Jones a D.Griffiths.

Ymddiheuriad - Cyng S.Jones,Cyng S.Roberts

**Cofnodion Mawrth 2023.**

Cynnigodd Cyng D. Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng G.Jones.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Giat Green Lane- Dim gwybodaeth pellach.

Mae sawl asiantaeth mewn ymgynghoriad sut I ddatrys y broblem yma.

Mae'r clerc wedi gofyn am ddiweddariad gan Nicola pan fydd penderfyniad wedi ei wneud.

Ffordd Ty Cerrig-Mae'r clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Mr Norman Hughes pennaeth tim Ardal Ni yn egluro fod y gwaith clirio wrth neuadd y pentref wedi ei gwblhau.

Eglurodd Cyng Edwards fod y gwteri ar ffordd Ty Cerrig yn dal yn llawn o ddail a.y.b. Bydd Cyng Edwards yn gyrru lluniau i Cyng Delyth Griffiths yn dangos hyn.

Ffordd ger blwch post yn Hermon- Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd am drin y ffordd yn yr ardal yma.

Maesgwm – Dywedodd Cyng Morris fod problem o hyd gyda gwelededd wrth ddefnyddio'r gyffordd yn y lleoliad hwn.

Mae swyddog cefnffyrdd Mr Owain Peredur Jones wedi ymweld ar lleoliad a cadarhau ei fod o'r farn fod y  cyffyrdd yn saff I ddefnyddwyr ffordd.

Fe fydd Mr Jones yn dal I asesu'r sefyllfa yn ystod y misoedd nesaf.

**Cyngorhydd Sir**- Bydd Gwaith clirio a torri coed ar y ffordd i Maesgwm yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf.

**Ambiwlans awyr.**

Mae cyllid wedi ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau'r ambiwlans awyr yn ein cymuned.

**Cyfarfod cwmni Magnox yn Trawsfynydd**- Mae'r cyngor wedi derbyn e-bost yn gofyn os byddant a diddordeb cynnal sesiwn"galw heibio" hefo aelodau cwmni Magnox i drafod y cais cynllunio "ponds complex demolition".

Bydd Cyng Griffiths yn trafod hefo Angela Rayner dyddiad cyfarfod nail ai yng ngorsaf bwer Trawsfynydd neu yn neuadd y pentref Ganllwyd.

**Ymgynghoriad ardal Maesgwm**- Mae'r cynghorydd sir wedi trafod y mater yma gyda swyddog CNC Mr James.

Ddywedodd Mr Laing ei fod wedi derbyn llawer o syniadau a ceisiadau sut i ddathblygu yr ardal.

Mae'r cynghorwr am drafod y pwnc yn fwy manwl gyda Mr Laing a bydd yn adrodd yn ol i'r cyngor yn cyfarfod mis nesaf.

**Canolfan telathrebu arfaethedig-Moel Hafod Owen,Llanfachraeth.**

Mae'r cyngor wedi derbyn llythyr gan Teligent Telecom ar rhan y swyddog gartref am cais cynllunio yn y dyfodol ynglyn a hyn.

Wedi trafod cynnwys y llythyr bydd Cyng Dixon yn hysbysebu manylion y cais I'r cyhoedd ac yn adrodd yn ol i'r cyngor yn ystod y cyfarfod nesaf gyda unrhyw sylwadau.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mawrth 2023

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4143.67 |

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £10.00 |
| Aelodaeth Un Llais Cymru | £33.00 |
| Cyfrifiadur Newydd | £458.99 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £3541.68 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit allanol- cadarnhad fod yr awdit wedi,i drefnu yn y ffordd arferol.

Cytynodd y cyngor dalu anfoneb £216.00 a dderbynwyd gan cwmni E.W.Owen

Mae'r cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth gan y rheoleiddiwr pensiynau o ailddatgan cydymffurfiaeth.

**Llythyrau & E-bost**

Ardal Ni- Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu canolbwynt newydd ar gyfer y timau tacluso sydd wedi eu lleoli o fewn y porth aelodau ar wefan y cyngor.

Am unrhyw fater arall gall cysylltu a'r tim ar yr e-bost **tacluso@gwynedd.llyw.cymru**

Bydd y tim tacluso yn gweithio yn ardal y Ganllwyd rhwng y 10fed a 14eg o fis Ebrill.

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Morris yn codi'r pryderion isod:

Cyflwr gwyneb y ffordd A470 yn y pentref.

Oriau agor y toiled- a fydd yn bosib cadw'r toiled yn agored dros tymor yr haf?